**Lee Waters AS/MS**
**Y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd**
**Deputy Minister for Climate Change**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-06-1366
Ein cyf/Our ref LW/02315/23

Jack Sargeant AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

19 Hydref 2023

Annwyl Jack,

Diolch am eich gohebiaeth ar 22 Medi ynglŷn â 'Deiseb P-06-1366 Adfer y cyllid ar gyfer gwasanaethau Bysiau Cwm Taf 351 (Dinbych-y-pysgod i Bentywyn) a 352 (Dinbych-y-pysgod i Gilgeti)'.

Roedd yn ddrwg gennyf glywed am benderfyniad Bysiau Cwm Taf i dynnu'r ddau wasanaeth bws lleol hyn yn ôl, yn enwedig o ystyried yr arian ychwanegol rydym wedi'i ddarparu ers dechrau pandemig Covid i helpu awdurdodau lleol a gweithredwyr i gynnal gwasanaethau bysiau lleol. Mae hyn yn cynnwys fy nyfarniad diweddaraf o £46m a gyhoeddwyd ar 16 Mehefin ( Dirprwy Weinidog yn cadarnhau y bydd y rhan fwyaf o wasanaethau bws yn cael eu diogelu diolch i gronfa £46m | LLYW. CYMRU ) hyd at ddiwedd y flwyddyn ariannol hon sy'n cwmpasu'r Cynllun Brys ar gyfer y Sector Bysiau a'r Gronfa Bontio ar gyfer Bysiau sy'n ei ddisodli er mwyn atal canslo gwasanaethau yn gyfan gwbl. Erbyn diwedd y flwyddyn ariannol hon, byddwn wedi gwario dros £200m yn cefnogi'r diwydiant bysiau ers dechrau'r pandemig.

Rwyf wedi gofyn i Trafnidiaeth Cymru weithio'n agos gydag awdurdodau lleol ledled Cymru i nodi a blaenoriaethu llwybrau bysiau ar gyfer cymorth parhaus, a bydd hyn yn cynnwys edrych yn ofalus ar y ddau lwybr hyn.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lee.Waters@llyw.cymru
Correspondence.Lee.Waters@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Bydd y gwaith hwn yn ein helpu i baratoi cynlluniau manwl ar gyfer gwell gwasanaethau bysiau ym mhob rhanbarth i'n helpu i bontio i'r system newydd o fasnachfreinio bysiau yr wyf yn gobeithio ei chyflwyno drwy'r Bil Bysiau newydd ar gyfer Cymru i'r Senedd yn 2024.

Yn gywir



**Lee Waters AS/MS**
Y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd
Deputy Minister for Climate Change